

COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANYNYS A GYNHALIWYD AR NOS
FAWRTH 11EG O DACHWEDD 2014 YN YSGOL GYNRADD RHEWL AM 7.30
O'R GLOCH.

PRESENNOL: Y Cynghorwyr Siân Davies (Cadeirydd), Gwyn Howatson, Deryl Roberts, Medwyn Jones, Brynle Lloyd, Mike Denman, Clwyd Thomas, Dewi Roberts, Cyngorydd Sir Ddinbych Merfyn Parry a'r Clerc.

1. YMDDIHEURIADAU: Y Cyngorydd Ian Hession.

2. CADARNHAU COFNODION BLAENOROL Y CYNGOR.

Cadarnhawyd cofnodion 9fed o Fedi 2014 a'u harwyddwyd gan y Cadeirydd.

3. MATERION YN CODI O'R COFNODION.

A. Derbyniwyd llythyr o ddiolch oddi wrth Glwb Garddio Rhewl am rodd y Cyngor.

B. Derbyniwyd adroddiad Cyngorydd Sir Ddinbych, Merfyn Parry yn cadarnhau ei fod wedi cael cyfarfod safle gydag Mr Trevor Carr o'r Adran Briffyrdd y Sir ynglŷn ar ffyrdd sydd angen sylw yn y gymuned.

C. Derbyniwyd adroddiad Cyngorydd Sir Ddinbych yn cadarnhau ei fod wedi trafod y gwrych ar y cae sydd yn taro ar Lon Brics yn Rhuthun sydd yn amharu ar y Lon Beics ac mae'r perchennog wedi gado plygu'r gwrych.

4. CYLLID.

A. Datganiad Banc - £9,513.00.

B. Derbyniwyd ad-daliad oddi wrth y Swyddfa Archwilio Cymru - £30.00.

C. Taliadau:-

1. Cyflog y Clerc am y chwarter yn diweddu 31ain o Ragfyr 2014 - £300.00.

2. PAYE am y chwarter yn diweddu 31ain o Rhagfyr 2014 - £75.00.

3. Cais am gefnogaeth arian oddi wrth Bwyllgor Pafiliwn Y Rhewl - £1,600.00

(Dangosodd Y Cyngorydd Mike Denman diddordeb yn y cais a gadawodd ystafell).

5. MATERION CYNLLUNIO.

A. Derbyniwyd gwybodaeth bod Cyngor Sir Ddinbych wedi caniatáu cais cynllunio am weithdy yn Craig-y-Ddwyart, Rhewl.

B. Nid oedd gan yr aelodau unrhyw wrthwynebiad i'r ceisiadau cynllunio canlynol:-

1. Manylion newidiadau estyniad i Glanynys Bach, Llanynys.

2. Newidiadau i'r cais cynllunio wreiddiol yn Nhŷ Celyn, Rhewl.

3. Manylion tirlunio ar dir yn Rhyd-y-Byll, Rhewl.

6. GOHEBIAETH.

Derbyniwyd gwybodaeth ac adroddiad Y Cyngorydd Sir Merfyn Parry ynglŷn ar ohebiaeth ganlynol Cyngor Sir Ddinbych:-

A. Cyflwr y gwrych rhwng Bodynys a Bryn Hyfryd, Rhewl.

B. Materion perchenogion coed yn y Sir.

C. Gosod Cyllideb 2015/16 y Sir.

D. Polisi Trafnidiaeth Ysgolion y Sir.

7. UNRHYW FATER ARALL.

Cytunodd Y Cyngorydd Sir Merfyn Parry edrych i mewn i'r materion ffyrdd canlynol y gymuned:-

- A. Clawr twll archwilio yn siglo ar Ffordd Dinbych yn Rhewl.
- B. Dwr glaw yn mynd i'r buarth Coed Duon Chalet yn Llanrhaeadr.

8. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR – Nos Fawrth 13eg o Ionawr 2015 yn Ysgol Gynradd Rhewl am 7.30 p.m.